O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U

# 2026 Rhif 121

## Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Hydref 2026* |
| *Yn dod i rym* | *15 Hydref 2026* |

W E L S H  S T A T U T O R Y  I N S T R U M E N T S

# 2026 No. 121

## The Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *13 October 2026* |
| *Coming into force* | *15 October 2026* |

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 121

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# DŴR, CYMRU

## Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2026

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/77 (Cy. 20)) ("Rheoliadau 2021").

Mae rheoliad 18 o Reoliadau 2021 yn rhagnodi'r cyfnodau gwaharddedig pan waherddir taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd 18A yn Rheoliadau 2021. Mae rheoliad newydd 18A yn darparu esemptiad dros dro rhag y gwaharddiad yn rheoliad 18, gan ganiatáu taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 15 Hydref 2026 ac sy'n dod i ben â 15 Tachwedd 2026, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ar faint y slyri y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg a'r cyfnod rhwng pob taeniad. Nid yw'r esemptiad yn gymwys i daenu tail dofednod.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

# 2026 Rhif 121

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# DŴR, CYMRU

## Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Hydref 2026* |
| *Yn dod i rym* | *15 Hydref 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 92 a 219(2)(e) ac (f) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**).

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2026 a deuant i rym ar 15 Hydref 2026.

**Diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 18, ar ôl "Yn ddarostyngedig i reoliadau" mewnosoder "18A,".

(3) Ar ôl rheoliad 18 mewnosoder—

**"Esemptiad dros dro ar gyfer 2026**

**18A.**—(1) Caniateir taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar laswelltir neu dir tro (ni waeth beth fo'r math o bridd ar gyfer y naill dir neu'r llall) rhwng 15 Hydref 2026 a 15 Tachwedd 2026 yn gynwysedig, ar yr amod—

(**1**) 1991 p. 57. Diwygiwyd adran 92 gan adran 120 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) a pharagraffau 128 a 144 o Atodlen 22 iddi, a chan O.S. 2010/675 ac O.S. 2013/755 (Cy. 90). Mae diwygiadau i adran 219 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 92 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran y rhannau hynny o Gymru sydd y tu allan i ddalgylchoedd afon Dyfrdwy, afon Gwy ac afon Hafren. O ran y rhannau hynny o Gymru sydd o fewn y dalgylchoedd hynny, mae swyddogaethau o dan adran 92 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau o dan adrannau 92 a 219 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2021/77 (Cy. 20), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) mai 30 metr ciwbig yr hectar yw'r uchafswm o slyri sy'n cael ei daenu ar unrhyw un adeg, a

(b) bod o leiaf dair wythnos rhwng pob taeniad.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i daenu tail dofednod."

*Llyr Gruffydd*
Y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, un o Weinidogion Cymru
13 Hydref 2026

---

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 121

# AGRICULTURE, WALES

# WATER, WALES

## The Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021 (S.I. 2021/77 (W. 20)) ("the 2021 Regulations").

Regulation 18 of the 2021 Regulations prescribes the closed periods during which the spreading of organic manure with high readily available nitrogen is prohibited.

Regulation 2 of these Regulations inserts new regulation 18A into the 2021 Regulations. New regulation 18A provides a temporary exemption from the prohibition in regulation 18, permitting the spreading of organic manure with high readily available nitrogen during the period beginning with 15 October 2026 and ending with 15 November 2026, subject to restrictions on the amount of slurry that may be spread at any one time and the interval between each spreading. The exemption does not apply to the spreading of poultry manure.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

# 2026 No. 121

# AGRICULTURE, WALES

# WATER, WALES

# The Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *13 October 2026* |
| *Coming into force* | *15 October 2026* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 92 and 219(2)(e) and (f) of the Water Resources Act 1991(**1**).

**Title and coming into force**

**1.** The title of these Regulations is the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) (Amendment) Regulations 2026 and they come into force on 15 October 2026.

**Amendments to the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021**

**2.**—(1) The Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 18, after "Subject to regulations" insert "18A,".

(3) After regulation 18 insert—

**"Temporary exemption for 2026**

**18A.**—(1) Spreading organic manure with high readily available nitrogen on grassland or tillage land (regardless of the soil type for either land) is permitted between 15 October 2026 and 15 November 2026 inclusive, provided that—

(**1**) 1991 c. 57. Section 92 was amended by section 120 of, and paragraphs 128 and 144 of Schedule 22 to, the Environment Act 1995 (c. 25), and by S.I. 2010/675 and S.I. 2013/755 (W. 90). There are amendments to section 219 which are not relevant to these Regulations. By virtue of article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), functions of the Secretary of State under section 92 were transferred to the National Assembly for Wales in relation to those parts of Wales which are outside the catchment areas of the rivers Dee, Wye and Severn. In relation to those parts of Wales which are within those catchment areas, functions under section 92 are exercisable by the National Assembly for Wales concurrently with the Secretary of State. By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), functions under sections 92 and 219 now vest in the Welsh Ministers.

(**2**) S.I. 2021/77 (W. 20), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(a) the maximum amount of slurry that is spread at any one time is 30 cubic metres per hectare, and

(b) there are at least three weeks between each spreading.

(2) This regulation does not apply to the spreading of poultry manure."

*Llyr Gruffydd*
Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability, one of the Welsh Ministers
13 October 2026

---

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

**Arlein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn ac E-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea,
and available from:

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839892-2

9 780348 398922